

PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC

DYDD MAWRTH, 17 HYDREF 2023

Yn
bressenol: Cynghorydd Bridgeman (Cadeirydd),
Y Cynghorwyr Ahmed, Boes, Davies, Hopkins, Melbourne a/ac
Moultrie

Aelodau Cyfetholedig:
Celeste Lewis (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr), Carol Cobert
(Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru) a/ac Patricia Arlotte
(Cynrychiolydd Gatholig Rufeinig)

Emily Gao (Cynrychioldd y Cyngon Ieuenctid)

20 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Simmons, Ferguson Thorne a Melbourne; a Bid Corr (Rhiant-Lywodraethwr Cyfetholedig)

21 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorwyr Ahmed a Boes fuddiannau rhagfarnus yn eitem 5 ar yr agenda fel cynghorwyr ward lleol ar gyfer y Tyllgoed. Datganodd y Cynghorydd Davies fuddiant personol yn Eitem 6 fel cyfarwyddwr anweithredol Bws Caerdydd.

22 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2023 a 14 Gorffennaf 2023 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

23 : CYNLLUNIO TREFNIADAETH YSGOLION: LLEOEDD MEWN YSGOLION CYNRADD I WASANAETHU CATHAYS A RHANNAU O GABALFA, Y MYNYDD BYCHAN, YSTUM TAF A PHLASNEWYDD

Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai'r eitem hon yn eu galluogi i ymgymryd â gwaith craffu cyn penderfynu ar Leoedd mewn Ysgolion Cynradd i Wasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd a fyddai'n cael eu hystyried gan y Cabinet ar 19 Hydref 2023.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Huw Thomas (Arweinydd y Cyngor), Melanie Godfrey (Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes), Richard Portas (Cyfarwyddwr Rhaglen y Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion), Brett Andrewartha (Rheolwr Cynllunio'r Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion); Michele Duddridge-Friedl (Rheolwr Gweithredol Strategaeth y Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion).

Gwahoddwyd y Cynghorydd Thomas i wneud datganiad, lle tynnodd sylw at y broses hyd yma. Esboniodd i Gabinet y Cyngor yn ei gyfarfod ar 23 Mawrth 2023 gytuno ar argymhelliad i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar dri opsiwn i ehangu darpariaeth ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a chyfuno darpariaeth ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg.

Tynnodd y Cynghorydd Thomas sylw at opsiwn 1 sef yr un a ffefrir, a oedd fel a ganlyn:

- Trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank.
- Cynyddu capasiti Ysgol Mynydd Bychan o 192 o leoedd (0.9DM) i 420 o leoedd (2DM), a chynyddu nifer y lleoedd dosbarth meithrin yn Ysgol Mynydd Bychan o 64 i 96.
- Cyfuno Ysgolion Cynradd Allensbank a Gladstone:
- Cau Ysgol Gynradd Allensbank yn ffurfiol.
- Cau Ysgol Gynradd Gladstone yn ffurfiol.
- Sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd â 420 o leoedd (2DM) gyda dosbarth meithrin ar safle presennol Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica a rennir ar hyn o bryd.
- Trosglwyddo Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan a sefydlu darpariaeth feithrin yn yr ysgol.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu rhoi ar waith o fis Medi 2025.

Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau fod y cynnig yn caniatáu ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal a oedd yn ymrwymiad allweddol yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Roedd y Cabinet hefyd yn awyddus i sicrhau na ddylai'r cynnig roi darpariaeth cyfrwng Saesneg dan anfantais. Pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, byddai mesurau'n cael eu cymryd i fuddsoddi yn yr adeilad i sicrhau ei fod yn bodloni'r safon.

Yn ystod cyflwyno'r adroddiad cafodd yr Aelodau wybod bod ymgynghoriad wedi digwydd ar y tri chynig ac mai Opsiwn 1 a oedd yr opsiwn a ffefrir. Roedd y 230 o ymatebion a dderbyniwyd yn cynnwys 189 o ymatebion ar-lein a chopi caled. Cafwyd 17 o ymatebion ffurfiol, 2 ymateb gan Gynghorau Ysgol a 5 ymateb dros e-bost. Cafwyd ymatebion penodol gan bob un o'r cyrff llywodraethu a phenaethiaid yn yr ysgolion a chan amrywiaeth o sefydliadau gan gynnwys Estyn a ddywedodd y byddai'r safonau o leiaf yn cael eu cynnal fel rhan o'r cynigion. Cafwyd hefyd nifer sylweddol o ymatebion gan unigolion sy'n gysylltiedig â'r tair ysgol, a'r gyfran uchaf o Ysgol Gynradd Allensbank. Roedd cysylltiad agos rhwng llawer o'r ymatebion hefyd â'r cynigion gyda phob ysgol unigol.

Gwahoddwyd yr Aelodau i ofyn cwestiynau ac i wneud sylwadau; mae'r drafodaeth wedi'i chrynhai fel a ganlyn:

- Holodd yr Aelodau a oedd y cynnig yn darparu cydbwysedd da o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Ymatebodd y swyddogion gan ddweud mai'r rhesymeg y tu ôl i'r cynnig oedd ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a sicrhau gwell cydbwysedd o ddarpariaeth cyfrwng Saesneg. Nid lleihau oedd y bwriad ond galluogi ad-drefnu darpariaeth. Nododd yr Aelodau, pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r cynnig, y byddai'n arwain at ysgol fwy, gyda chyfansoddiad mwy effeithlon ac y byddai'n clirio'n rhannol ddiffyg yr ysgolion hynny gan arwain at sylfaen ariannol fwy diogel i ddechrau gyda hi.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd ymgynghoriad ysgolion cynradd Cathays wedi amlygu angen rhywle arall; ac a oedd hyder am gapasiti lleoedd cyfrwng Cymraeg ar gyfer y dyfodol. Ymatebodd y swyddogion gan ddweud bod hyn wedi'i glustnodi ar gyfer sylw yn y Strategaeth Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion (CTY) a'i fod wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau y byddai cyswllt yn digwydd gyda chraffu ar yr adeg briodol i ystyried hyn. Croesawodd yr Aelodau fewnbwn i'r strategaeth ddrafft.
- Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau yn ymwneud â chyfathrebu a sicrhau bod y broses o gyfleu Opsiwn 1 i rieni a rhanddeiliaid ehangach yn cael ei chynnal yn effeithiol.
- Awgrymodd yr Aelodau hefyd rannu gwybodaeth am ddarpariaeth gyfartal (yn enwedig mewn perthynas â chyllid) rhwng darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, er mwyn sicrhau bod pob parti yn glir ar y mater hwn.
- Dywedodd yr Aelodau, o ystyried y ffaith bod canlyniadau'r ymgynghoriad yn awgrymu 'Opsiwn 4' posib, y dylai'r rhesymeg y tu ôl i beidio ag ystyried yr opsiwn hwn hefyd gael ei gynnwys wrth gyfathrebu â rhanddeiliaid.
- Roedd yr Aelodau'n teimlo ei bod yn hanfodol bod rhieni, staff a rhanddeiliaid ehangach yn cael negeseuon clir a chyson i annog cefnogaeth gynnar ar gyfer Opsiwn 1 ac annog trosglwyddiad didrafferth i'r trefniadau newydd. Ymatebodd y swyddogion gan ddweud bod cyfarfodydd eisoes wedi cael eu cynnal gyda Chadeiryddion Llywodraethwyr a Phenaethiaid yr ysgolion dan sylw. Dywedwyd bod pob un o'r ysgolion wedi penderfynu y byddent yn hoffi cwrdd â'u staff eu hunain o bosibl gyda chynrychiolwyr undebau llafur yn bresennol. Roedd aelodau staff yr ysgolion dan sylw eisoes yn ymwybodol ac roeddent yn ymwybodol ar y diwrnod yr oedd y papurau'n cael eu rhyddhau. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod cymorth Adnoddau Dynol ar waith a bod cyfleoedd yn cael eu cymryd i drafod y materion gyda'r staff yr effeithiwyd arnynt i ddeall eu barn a'u pryderon. Roedd ymgynghoriad blaenorol hefyd wedi cael ei gynnal a dyma'r ail dro. Roedd yr holl fecanweithiau ar waith i gefnogi sefyllfa heriol i bobl. Amlygwyd y byddai'r Cyngor yn ymateb i'r ymgynghoriad gyda thryloywder a gonestrwydd.
- Holodd yr Aelodau ddadleoli staff o ganlyniad i'r cynigion a theimlon nhw ei bod yn hanfodol bod hyn yn cael ei drin mewn modd sensitif. Ymatebodd y swyddogion gan ddweud bod nifer y rolau yn y ddwy ysgol yn lleihau felly byddent eisoes yn gwneud penderfyniadau anodd am eu staff addysgu a dysgu. O ran nifer y dosbarthiadau sy'n rhedeg ar hyn o bryd ac yn y ffurf newydd byddai angen 14 o athrawon (7 ym mhob un ynghyd â'r feithrinfa). Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod siawns na fyddai pob aelod o staff yn cael rolau ond byddent yn cael cyfle cyntaf i wneud cais am rolau a'u clustnodi pe bai'r corff llywodraethu dros dro yn cytuno i hynny.
- Gofynnodd yr Aelodau i waith datblygu strategaeth gyfathrebu effeithiol a llawn gwybodaeth gael ei ystyried a'i adrodd yn ôl i'r pwyllgor, dylid cynnwys ymateb i weld a fyddai'r Tîm CTY yn datblygu strategaeth o'r fath (a ddylai gynnwys gwybodaeth glir ynghylch y rhesymeg dros y penderfyniad; cwestiynau cyffredin sy'n defnyddio ymatebion i'r ymgynghoriad fel enghreifftiau ac ati) yn yr ymateb i lythyr y Cadeirydd.

- Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau mewn perthynas â chyllid a hyfywedd cynnig Ysgolion Cynradd Cathays a'r costau mewn perthynas ag adnewyddu adeiladau presennol. Ymatebodd y swyddogion gan ddweud bod y Cyngor yn ymwybodol o gyflwr yr adeiladau ac roedd yn cyflwyno rheswm da dros gyflwyno rhai o'r cynigion. Nododd yr Aelodau fod y gwaith yn cael ei wneud yn gynlluniau helaeth iawn, eithaf cymhleth yn ymwneud ag adeiladau rhestredig. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y dylai'r gwaith to, y gwaith cerrig a'r sgaffaldiau gael eu datrys ddiwedd y flwyddyn. Roedd Llywodraeth Cymru yn rhoi £1.8m o gyllid buddsoddi cyfalaf i safle presennol Allensbank a byddai'r Cyngor yn rhoi cyllid i safleoedd presennol Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica i sicrhau eu bod yn addas.
- Holodd yr Aelodau ynghylch goblygiadau a heriau dileu cyllidebau diffyg mewn dwy o'r ysgolion caeedig a gofynnon nhw a oedd unrhyw oblygiadau ariannol mewn perthynas â'r newid mewn esgobaeth. Ymatebodd y swyddogion gan ddweud bod diffygion yn digwydd yn aml pan nad oedd digon o bobl yn manteisio ar leoedd mewn ysgolion. Y gobaith oedd drwy roi'r ddwy ysgol ar sylfaen gryfach a gweithio'n agos gyda nhw y byddai modd cydbwysu eu sefyllfa cyllideb ddirprwyedig, ar ôl dileu'r diffyg, ac y byddai modd iddi fod yn sefydlog wrth symud ymlaen. Nododd yr Aelodau hefyd yr arian trosglwyddo sy'n cael ei roi yn y gyllideb i gefnogi'r ddwy ysgol yn dod at ei gilydd (£60k fesul sefydliad i bob ysgol) a fyddai'n cael ei leihau dros y blynyddoedd i gefnogi'r trosglwyddiad. Byddai'r diffyg yn cael ei dalu o'r Gronfa Wrth Gefn Refeniw Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion a fyddai'n ddarostyngedig i'r un mecanweithiau a fyddai'n ariannu'r rhaglen.

PENDERFYNWYD: Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor yn mynegi ei sylwadau a'i arsylwadau a gasglwyd yn ystod y ffordd ymlaen.

24 : CYNLLUNIO TREFNIADAETH YSGOLION: CAMPWS Y TYLLGOED

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai'r eitem hon yn galluogi'r Aelodau i ymgymryd â gwaith craffu cyn penderfynu ar Ailddatblygiad Band B sy'n ymwneud â champws y Tyllgoed.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sarah Merry (Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg) a Wayne Ganderton (y Tîm CTY)

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai'r eitem yn cael ei rhannu'n ddwy ran:

- Sesiwn agored fyddai rhan 1 a dim ond cwestiynau ar Atodiadau A, 1 a 3 yr oedd angen i'r Aelodau eu gofyn.
- Sesiwn gaeedig i aelodau'r cyhoedd fyddai rhan 2 a byddai'n galluogi'r Aelodau i ofyn cwestiynau ar Atodiadau 2 a 4.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod Atodiadau 2 a 4 yr adroddiad wedi'u heithrio o'u cyhoeddi oherwydd eu bod yn cynnwys gwybodaeth o'r natur a ddisgrifir ym mharagraffau 14 a 21 rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac yn holl amgylchiadau'r achos, mae budd y cyhoedd o ran cynnal yr eithriad yn fwy na budd y

cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, ac wedi'u heithrio o'u datgelu gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth yn unol â pharagraff 16 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Merry i wneud datganiad agoriadol. Amlygodd y ffaith bod Campws Cymunedol y Tyllgoed yn un o brosiectau cyfalaf blaenllaw y Cyngor sy'n dod ag Ysgol Uwchradd Cantonian, Ysgol Woodlands ac Ysgol Riverbank at ei gilydd. Yn ei gyfarfod ar 13 Mehefin 2019, cytunodd Cabinet y Cyngor i gyhoeddi hysbysiadau statudol i:

- Gynyddu'r capasiti yn Ysgol Uwchradd Cantonian o 6 dosbarth mynediad (6DM) i wyth dosbarth mynediad (8DM) gyda darpariaeth chweched dosbarth ar gyfer hyd at 250 o ddisgyblion mewn adeilad newydd;
- Ehangu'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) i ddysgwyr sydd â Chyflwr ar y Sbectwm Awtistig (CSA) yn Ysgol Uwchradd Cantonian o 20 i 30 lle mewn llety pwrpasol yn adeiladau newydd yr ysgol;
- Trosglwyddo Ysgol Arbennig Woodlands i safle presennol Cantonian a chynyddu'r capasiti o 140 i 240 o leoedd mewn adeilad newydd;
- a Throsglwyddo Ysgol Arbennig Riverbank i safle presennol Cantonian a chynyddu'r capasiti o 70 i 112 o leoedd mewn adeilad newydd.

Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai gan safle newydd yr ysgol gyfleusterau o'r radd flaenaf ac y byddai'n golygu diwedd ystafelloedd dosbarth dros dro. Bu problemau hanesyddol hir dymor hefyd gydag adeiladau'r ysgol a buddsoddiad sylweddol i gadw'r ysgol ar agor ychydig flynyddoedd yn ôl. Tynnwyd sylw'r Aelodau at y cyfleusterau chwaraeon newydd o ansawdd uchel, y caffî Cymunedol ar y campws, y gofod arddangos a hefyd y ganolfan fenter ac, yn bwysig, hi fyddai'r ysgol gyntaf yng Nghaerdydd i fod yn sero-net wrth weithredu yn unol â safonau Llywodraeth Cymru.

Nododd yr Aelodau fod elfennau o'r papur a oedd yn fasnachol sensitif. Y prosiect oedd y mwyaf o'i fath yn y Deyrnas Unedig a phwysleisiwyd bod tair ysgol mewn un safle yn ymgymeriad enfawr ar safle ysgol uwchradd gan ddarparu ymhell dros 150 o leoedd anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a chynnwys 24,255 metr sgwâr. Nododd yr Aelodau fod dadansoddiad o gynlluniau cymharol ar draws y wlad wedi digwydd. Nododd yr Aelodau fod meincnodi wedi digwydd gyda dwy set o ymgynghorwyr a Llywodraeth Cymru, bod diwydrwydd dyladwy wedi digwydd a bod ymarfer tendro helaeth wedi'i gynnal. Roedd ffocws cymunedol cryf hefyd gyda'r prosiect, carbon sero-net a hefyd targed cryf o ran carbon ymgorfforedig.

O ran lleoedd ADY nododd yr Aelodau y byddai cost o £11.1m ar gyfer lleoedd y tu allan i'r sir y flwyddyn pe na bai'r cynnig yn mynd rhagddo a oedd yn eithaf sylweddol a llwm. Nododd yr Aelodau fod sylweddoliad bod llawer o bwysau ar y rhaglen Band B. Roedd cydnabyddiaeth o'r angen i symud tuag at raglen dreigl ac ystyried yr holl flaenoriaethau, pob cynllun o dan y cynnig hwnnw.

Yn dilyn cyflwyniad CGI o ailddatblygiad Band B Campws y Tyllgoed, gwahoddwyd yr Aelodau i ofyn cwestiynau ac i wneud sylwadau; mae'r drafodaeth yn cael ei chrynhof fel a ganlyn:

- Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd yn ymwneud â chyflawni'r prosiect a gofynnon nhw a oedd hyder bod modd cyflawni'r amserlenni; ac y byddai'r

prosiect yn aros ar yr ansawdd a gynigiwyd ac yn cynnig gwerth am arian. Ymatebodd y swyddogion gan ddweud bod egwyddorion peirianeg gwerth yn cael eu dilyn - gan yrru gwerth allan o'r cynllun heb leihau ansawdd. Roedd safonau penodol wedi'u cynnwys yn y broses dendro o ran lefelau lwcs a desibelau. Roedd y systemau trydanol a mecanyddol wedi'u hadolygu'n llwyr a nodwyd pe bai'r dyluniadau cyfredol yn cael eu cymharu â rhyw flwyddyn yn ôl, na fyddai gwahaniaeth sylweddol. Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau fod gweledigaeth gref wedi bod ar gyfer y prosiect a defnyddiwyd hynny i brofi'r peirianeg gwerth. Cytunodd yr Aelodau, o ystyried maint y prosiect a'i statws unigryw, y byddent yn ceisio monitro ac adolygu'r prosiect yn rheolaidd i sicrhau bod boddhad bod y prosiect yn cael ei gyflawni ar amser ac o fewn y gyllideb.

- Cytunodd yr Aelodau y byddai'r campws newydd yn welliant ar yr hyn a oedd wedi bod ar waith o'r blaen a gofynnion nhw a oedd unrhyw ddiweddariadau ar agweddau gwerth cymdeithasol. Ymatebodd y swyddogion gan ddweud bod gwaith yn digwydd gyda chydweithwyr ieuenctid i sefydlu canolfan ieuenctid a hefyd i gefnogi a darparu gwelliannau i'r clwb pêl-droed. Roedd cynlluniau ar waith i sefydlu pwyllgor i edrych ar adnoddau i gefnogi gwerthoedd cymdeithasol. Nododd yr Aelodau ei fod wedi bod yn ddechrau cymharol araf hyd yma oherwydd cam presennol y prosiect ond roedd camau gweithredu bellach yn dechrau digwydd a chroesawodd yr Aelodau ddiweddariad maes o law.
- Holodd yr Aelodau am leoliad y cyfleusterau cymunedol ac unrhyw faterion diogelu mewn perthynas â hyn. Ymatebodd y swyddogion gan ddweud bod adeilad yr Hyb a'r canolfannau lles wedi'u lleoli ar draws ochr flaen a dwyrain y safle a byddent yn agor at ddefnydd y gymuned. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai'r prif adeiladau yn cael eu parthu fel y gellir eu hagor mewn modd na fyddai'n effeithio ar y safle cyfan. Cydnabuwyd bod angen sicrhau bod diogelu ar waith ar gyfer y Caffi Cymunedol y tu allan i oriau ac roedd hefyd yn gyfle dysgu. Yn y pen draw, roedd y dyluniad yn golygu nad oedd mynediad i weddill yr ysgol felly roedd diogelu wedi cael sylw.
- Holodd yr Aelodau am y parcio ar y safle ac a oedd hyn yn ddigonol a mynegon nhw bryder am yr effaith ar y gymuned. Ymatebodd y swyddogion gan ddweud bod y gymhareb ar gyfer ysgolion o ran parcio yn un lle parcio i 30 o blant a chyda'r ysgolion arbennig roedd yn gymhareb ychydig yn uwch. Rhagwelwyd y byddai cynnydd mewn teithio llesol gydag adeiladau newydd ac roedd gwaith yn digwydd gyda'r undebau llafur mewn perthynas â pharcio. Roedd parcio ar safle'r campws yn unol â'r canllaw cynllunio atodol ar hyn o bryd ac roedd ymgynghoriad yn cael ei gynnal gyda Phriffyrdd ar gyfer parcio ychwanegol yn y ganolfan sgïo. Nododd yr Aelodau hefyd fod parcio ar gael gyferbyn â'r campws ar y ffordd nad oedd yn ddelfrydol ond dyna pam y darparwyd lleoedd ychwanegol. Roedd cynlluniau rhannu ceir hefyd yn cael eu datblygu a rhoddwyd blaenoriaeth i staff ag unrhyw anabledd neu angen. Gofynnodd yr Aelodau, pan ddaeth Campws y Tyllgoed i'r Pwyllgor nesaf, i swyddogion Priffyrdd gael eu cynnwys i roi eu barn a'u persbectif.

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad am gyfraniad Llywodraeth Cymru i'r prosiect, a dywedwyd wrthynt fod cyfraniadau ysgol brif ffrwd fel arfer yn 65%; a 75% ar gyfer ysgolion arbennig; felly byddai'r prosiect hwn yn cyfartaleddu cyfraniad o tua 70% gan Lywodraeth Cymru, gyda'r 30% sy'n weddill yn cael ei ariannu gan y Cyngor drwy fenthyca a chronfeydd wrth gefn.
- Gofynnodd yr Aelodau a oedd arian ar gyfer cynnal a chadw ac uwchraddio cyfleusterau ar y safle yn y dyfodol wedi'i ystyried ac ymatebodd y swyddogion gan ddweud bod hwn yn faes a oedd yn cael ei ystyried yn ofalus ar hyn o bryd. Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd bod materion cynnal a chadw ac uwchraddio yn cael eu cynnwys.
- Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ynglŷn â lleoedd gwag; effaith datblygiadau eraill (e.e. Plasdŵr) a sicrhau capasiti yn Cantonian; Woodlands a Riverbank yn ystod y cyfnod trosglwyddo. Ymatebodd y swyddogion gan ddweud, gydag unrhyw gynnig, ei bod yn hanfodol sicrhau ei fod yn cael ei gyfleu i'r boblogaeth leol fel y gallai'r boblogaeth leol gael mynediad ato. Byddai angen dangos yr angen am leoedd ychwanegol ac os nad oedd yr angen yn bresennol mwyach byddai rhaid didynnu lleoedd.

PENDERFYNWYD: Gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer Rhan 2 o'r eitem i ystyried Atodiadau 2 a 4 yn unol â pharagraffau 14 Rhan 4 o Atodlen 12A Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

*****Diwedd Rhan 1 – rhoddwyd y gorau i we-ddarlledu am 18:08*****

****Ail-ddechreuwyd gwe-ddarlledu am 18:46*****

Croesawodd yr Aelodau y cynigion uchelgeisiol a chyffrous ar gyfer campws y Tyllgoed a'r newyddion mai hwn fyddai'r datblygiad mwyaf o'i fath yn y DU ac edrychion nhw ymlaen at fonitro'r datblygiad yn agos wrth symud ymlaen.

PENDERFYNWYD: Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor yn mynegi ei sylwadau a'i arsylwadau a gasglwyd yn ystod y ffordd ymlaen.

25 : ADRODDIAD BUSNES Y PWYLLGOR

Rhoddwyd y wybodaeth ganlynol i'r Aelodau:

- Rhaglen Waith 2023/24 y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc (PCPPI)
- Diweddariad ar Gylch Gorchwyl Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN)
- Diweddariad ar y Grŵp Gorchwyl a Gorffen CTY
- Diweddariad ar y PCPPI – Busnes Anffurfiol
- Diweddariad ar eitemau perthnasol a ystyriwyd gan Bwyllgorau Craffu eraill.

Cynhaliwyd trafodaeth ar amseru ar gyfer Adfer Ysgolion ar yr agenda ar gyfer y PCPPI ac o bosibl cyfuno ag ADY ar gyfer eitem agenda yn y dyfodol fel yr oedd ar y rhaglen waith ond heb ei ddyrannu i gyfarfod. Yn ogystal, awgrymodd yr Aelodau gynnwys Trafnidiaeth Ysgol fel eitem os oedd unrhyw fylchau yn yr agenda.

PENDERFYNWYD:

- Cytuno ar Raglen Waith 2023/24 ddrafft y PCPPI (Atodiad A)
- Nodi a chytuno ar y Cylch Gorchwyl ar gyfer Grŵp Gorchwyl a Gorffen y CDLIN (Atodiad B)
- Nodi'r cynnydd mewn perthynas â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen CTY
- Nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r eitemau hynny a ddosbarthwyd yn anffurfiol

Nodi eitemau cysylltiedig a ystyriwyd gan Bwyllgorau Craffu eraill

26 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

Nid oedd unrhyw eitemau bryd i'w trafod.

27 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

14 Tachwedd 2023 am 4.30pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.10 pm